Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Tachwedd 2021

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu i dynnu sylw'r Pwyllgor at y Datganiad Ysgrifenedig a wnaed gennyf heddiw, sy'n cyfeirio at gyhoeddi Diweddariad ar Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a'n Cynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ddogfen yn disgrifio ein blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu polisi trethi yn ystod tymor y Senedd hon, a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i'w cyflawni.

Byddwn yn hapus i drafod y dogfennau hyn gyda'r Pwyllgor pan fo hynny'n gyfleus.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Diweddariad ar y Fframwaith Polisi Trethi a Chynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-2026**
DYDDIAD	**03 Tachwedd 2021**
GAN	**Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Heddiw, cyhoeddais Diweddariad ar y Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a'n Cynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-2026. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ddogfen hyn yn amlinellu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu polisi trethi yn ystod tymor y Senedd hon, a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i'w cyflawni.

Cefnogwyd ein *Fframwaith Polisi Trethi* cyntaf *(2017)* yn eang. Mae'n amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'n pwerau trethu datganoledig ynghyd ag egwyddorion treth Llywodraeth Cymru.

Mae ein *Diweddariad ar y Fframwaith Polisi Trethi (2021)* yn cydnabod y cynnydd a wnaed gennym wrth ddatblygu polisi trethi yng Nghymru ers cyflwyno Deddf Cymru 2014 ac mae'n ceisio adeiladu ar hyn. Yn y *Diweddariad ar y Fframwaith Polisi Trethi* rydym yn achub ar y cyfle i leoli ac integreiddio polisi trethi yng nghyd-destun polisi strategol cenedlaethol ehangach Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, rydym yn amlinellu 'ein dull o ymdrin â threthi', sef y ffordd benodol yr ydym ni yng Nghymru yn datblygu a chyflawni polisi trethi gyda'n partneriaid.

Mae ein dull o ymdrin â threthi yn adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau i *gydweithio* i *gyd-greu* a *chyd-gyflawni* ein hamcanion o ran polisi trethi. Mae'n egluro sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgorffori ystyriaethau o ran cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb yn y ffordd yr ydym ni'n ysgwyddo a chyflawni ein blaenoriaethau.

Mae'r *Cynllun Gwaith Polisi Trethi* yn ymestyn dros dymor y Senedd hon. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiad i fod yn dryloyw ac ymgysylltu. Mae amlinellu ein blaenoriaethau o ran polisi trethi yn fodd o roi gwybodaeth i randdeiliaid a sicrhau eu bod yn gallu gweithio gyda ni wrth ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau o ran polisi trethi Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar yr ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y *Rhaglen Lywodraethu*.

Byddaf yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gwaith yn flynyddol drwy'r *Adroddiad ar Bolisi Trethi* a gyhoeddir law yn llaw â'r Gyllideb Ddrafft.